# Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## HSS(2)-11- 04(p.9)

Dyddiad: Dydd Mercher 6 Hydref 2004
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Teitl: Adroddiad Cynnydd ar Fenter Gofal Llygaid Cymru Gyfan

### Diben

1. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnydd y Fenter a datblygiadau cysylltiedig ym maes optometreg yn y GIG yng Nghymru.

### Crynodeb

2. Yn dilyn ymgynghoriad eang yn y flwyddyn 2000, rhoddodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaeth Cymdeithasol gymeradwyaeth i lansio Menter Gofal Llygaid Cymru. Byddai cleifion yng Nghymru yn elwa ar fesurau i helpu i arbed golwg, a helpu'r rheini sy'n brin eu golwg yn y gweithle ac yn y cartref.

### Cefndir

3. Lluniwyd polisi'r Fenter Gofal Llygaid ar sail cyfres o gyfarfodydd gweithgorau arbenigol, a oedd yn cynnwys offthalmolegwyr, optometryddion, meddygon teulu, elusennau a cynrychiolwyr cleifion. Cynghorydd Optometreg y Cynulliad oedd yn cadeirio'r cyfarfodydd. Mae tair elfen i'r Fenter.

#### Archwiliad Gofal Llygaid

4. Mae optometryddion wedi eu hyfforddi a'uu hachredu i ddarparu archwiliad llygaid penodol i'r grwpiau hynny o bobl sydd yn y perygl mwyaf o ddioddef clefyd ar y llygaid. Y grwpiau hyn yw pobl ddu Caribîaidd, pobl ddu Affricanaidd, pobl o dras Pacistanaidd, Indiaidd a Bangladeshi, pobl sy'n hollol fyddar, pobl sy'n gweld ag un llygad yn unig, a'r rheini sy'n dioddef o retinitis pigmentosa.

5. Gall optometryddion hefyd dderbyn cleifion sydd wedi'u cyfeirio gan feddygon teulu.

#### Arbed Golwg mewn Achosion o Diabetes, Rhaglen Cymru Gyfan i Leihau Risg

6. Gwasanaeth sgrinio i Gymru gyfan yw hwn, wedi ei seilio ar argymhellion y Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol, sef corff sy'n cynnig cyngor i bedwar cenedl y DU ar faterion sy'n ymwneud â sgrinio. Mae hwn yn wasanaeth sy'n cael ei gynnig i gleifion yn ychwanegol at y gwasanaeth rheoli cleifion diabetes y mae meddygon teulu ac optmoetryddion yn ei gynnig eisoes. Mae canolfannau sgrinio yn cael eu sefydlu ledled Cymru, lle mae unedau symudol yn tynnu ffotograffau digidiol o'r llygad. Mae'r delweddau yn cael eu trosglwyddo ar hyd llinellau pwrpasol i ganolfan yng Nglan-bad, lle mae graddwyr yn paratoi adroddiadau arnynt. Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu hafnon at bob claf a'u meddyg, beth bynnag fo'r canlyniad. Mae trefniadau ar gael ar gyfer cyfeirio cleifion ar frys i wasanaethau llygaid mewn ysbytai.

### Cynllun Cymhorthion i'r Rhai Prin eu Golwg

7. Gall optometryddion sydd wedi'u hyfforddi a'u hachredu'n arbennig gynnig y gwasanaeth hwn i gleifion yr aseswyd eu bod yn brin eu golwg, ac sydd angen help yn y gweithle ac yn y cartref. Mae'r cynllun hwn yn ategu'r clinigau sydd ar gael ar hyn o bryd i'r rhai prin eu golwg. Serch hynny, mae'n cynnig lleoliadau mwy cyfleus ar gyfer asesu llygaid a benthyca cymhorthion i'r claf. Caiff y cynllun ei weinyddu trwy gytundeb â Bwrdd Iechyd Lleol Caerfyrddin. Mae wedi ei lunio fel y gall optometryddion weld ac asesu cleifion, archebu a derbyn nwyddau ar eu rhan a'u rhoi iddynt, oll o fewn 5 wythnos. Cyn hyn, roedd yn rhaid i rai cleifion aros am flwyddyn i gwblhau'r broses.

## Cynnydd

8. Mae'r **archwiliad llygaid** wedi bod ar gael ers 2002, a bellach mae dros 300 o optometryddion wedi eu hyfforddi a'u hachredu i ddarparu'r gwasanaeth. Bellach, y mae wedi ei gysylltu â'r **Cynllun Atgyfeirio i gael Gofal Llygaid mewn Achosion Acìwt** (PEARS) lle y mae optometryddion (sydd unwaith eto wedi'u hyfforddi a'u hachredu) yn derbyn achosion brys un ai oddi wrth feddygon teulu neu gleifion sydd wedi dod ar eu liwt eu hunain. Maent yn eu hasesu ac yn penderfynu ar y camau i'w cymryd. Mae protocolau lleol yn caniatáu i gleifion gael eu cyfeirio yn syth i wasanaeth llygaid yr ysbyty. Mae hwn yn rhan hanfodol o'r gwasanaeth, sy'n arbed amser gwerthfawr pan fo angen triniaeth frys.

9. Mae'r meini prawf ar gyfer yr archwiliad llygaid wedi eu ehangu. Bellach, gall y cyhoedd gyflwyno'u hunain am archwiliad os ydynt mewn perygl o ddioddef clefyd ar y llygaid yn sgîl eu tras neu hanes teuluol.

10. Mae optometryddion yn adrodd y bu cynnydd mawr yn y galw am y gwasanaeth hwn. Roedd yr ystadegau cychwynnol yn dangos bod nifer dda yn derbyn archwiliadau oherwydd bod eu meddygon teulu wedi eu cyfeirio yno, oherwydd eu bod yn fyddar, neu oherwydd eu bod yn gweld ag un llygad yn unig. Serch hynny, roedd angen cynyddu'r nifer oedd yn derbyn archwiliadau o blith grwpiau lleifrifoedd ethnig. Cynhaliwyd digwyddiad gyda'r Gweinidog yng Nghaerdydd yn 2003 er mwyn annog mwy o bobl i fanteisio ar y gwasanaeth, a dysgwyd llawer o wersi yno.

11. Mae'r **gwasanaeth sgrinio pobl diabetig** yn mynd i gyrraedd ei darged o wasanaethu 80% o Gymru yn 2005, a 100% erbyn diwedd 2006. Mae hyn yn golygu y bydd y Ganolfan yn gwahodd pobl claf diabetig sydd ar ei gronfa ddata i sesiwn sgrinio lleol, ac mae cynlluniau ar y gweill i leihau nifer y rheini nad ydynt yn mynychu sesiwn gymaint â phosib. Mae'r Ganolfan wedi cyflwyno system sicrhau ansawdd, unwaith eto wedi ei seilio ar argymhellion y Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol, er mwyn sicrhau cywirdeb y graddio. Ar hyn o bryd, mae 9 graddiwr yn gweithio yn y Ganolfan, ac mae'r broses o gomisiynu safleoedd ar gyfer unedau symudol yn mynd rhagddi.

12. Mae'r **Cynllun Cymhorthion i'r Rhai Prin Eu Golwg** bellach yn cynnwys dros 80 o optometryddion wedi'u hyfforddi a'u hachredu sy'n darparu gwasanaeth i lawer o bobl ledled Cymru. Bydd nifer yr optometryddion sy'n cymryd rhan yn y cynllun yn cynyddu i 120 yn y Flwyddyn Newydd. Hefyd, mae'r Cynulliad nawr yn ariannu Swyddog Pobl Prin Eu Golwg, sy'n gweithio o'r Ysgol Optometreg a Gwyddorau Gweledol, ac Eiriolydd Plant Prin eu Golwg sy'n gweithio gydag RNIB Cymru. Mae'r eiriolydd yn edrych ar bob agwedd ar y gwasanaethau gofal llygaid sy'n cael eu darparu i blant yng Nghymru gan sefydliadau iechyd, contracwyr a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae hi hefyd yn trefnu grwpiau ffocws ac yn cynyddu ymwybyddiaeth ymysg rhieni, gofalwyr ac athrawon o'r problemau y gall plant eu cael gyda'i llygaid. Ar y cyd â hyn, mae'r Cynulliad wedi trefnu ymgyrch gyhoeddusrwydd wedi'i thargedu at rieni, er mwyn iddynt fynd â'u plant i weld optometrydd i gael prawf llygaid am ddim ar y GIG. Maent yn cael eu hannog i fynd â'u plant i gael y prawf pan y maent tua 3 mlwydd oed (ac yn sicr cyn oedran ysgol), ac yna ar adegau penodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, neu ar gyfarwyddyd yr optometrydd. Fel cam cyntaf, mae taflenni yn cael eu dosbarthu ar hyn o bryd i feddygfeydd, cadwyn o archfarchnadoedd, cylchoedd chwarae a gwasanaethau optometryddion. Mae cynlluniau ar y gweill i gynnal digwyddiadau cyhoeddusrwydd.

## Gwobr ar gyfer Menter Gofal Llygaid Cymru

13. Dyfarnodd Cymdeithas yr Optometryddion eu Gwobr am hyrwyddo optometreg yn 2004 i'r Cynulliad am ei Fenter Gofal Llygaid. Mae'r Fenter hon, sy'n unigryw ym Mhrydain, wedi dwyn optometryddion i mewn i brif ffrwd y GIG, sydd wedi bod yn hynod fanteisiol i gleifion yng Nghymru. Derbyniodd Prif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y wobr ar ran y Cynulliad ar 7 Mehefin, gan ailadrodd ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i hybu a hyrwyddo gofal llygaid yn y gymuned. Hefyd, aethant ati i ganmol ymroddiad optometryddion Cymru i ehangu'r ddarpariaeth gwasanaethau i bobl yng Nghymru, yn ychwanegol at eu hymrwymiadau contractiol o dan Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol.

14. Mae Cymdeithas yr Optometryddion a Ffederasiwn yr Optegwyr Offthalmig a Chyflenwyr (FODO) ill dau yn rhan o Optometreg Cymru, y sefydliad sy'n negodi yng Nghymru. Mae eu cydweithrediad hwy gyda'r Cynulliad wedi bod yn allweddol i lwyddiant gofal llygaid yn y gymuned yng Nghymru.

## Cynlluniau Peilot

15. Yn ysbryd y fenter, mae'r Cynulliad wedi ariannu sawl cynllun peilot yng Nghymru i wella'r modd y caiff cleifion glawcoma eu rheoli rhwng meysydd offthalmoleg ac optometreg. Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu bod y cynlluniau yn llwyddiannus iawn, ac maent eisoes wedi cael effaith ar amseroedd aros cleifion allanol.

## Camau i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

16. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys y papur hwn a llwyddiant Menter Gofal Llygaid Cymru.

**Jane Hutt**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Swyddog Cyswllt: G. Lynch HSC-CPCHSD ffôn: 3813